SESIWN 4: GADEWCH I NI FYND YN DDIGIDOL!

Ystod oedran: 11-14 oed

Amlinelliad

Yn y sesiwn hwn, bydd y dysgwyr yn creu eu ffeithlun digidol cyntaf i gyfleu'r un data am anghydraddoldeb - yn 2016 "mae gan yr 1% mwyaf cyfoethog erbyn hyn fwy o gyfoeth na gweddill y byd i gyd gyda'i gilydd".[1] Gan ddibynnu ar brofiad blaenorol a mynediad yr ysgol i Photoshop, bydd y dysgwyr yn defnyddio templedi wedi'u dylunio ymlaen llaw, neu gyfarwyddiadau enghreifftiol, neu'n dechrau o'r dechrau. Byddant yn gyfrifol am ddogfennu eu cynnydd technegol a byddant yn cael cyfle i werthuso eu proses a'u deilliannau.

Amcanion dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- Ymgyfarwyddo â rhyngwyneb Photoshop
- Arbrofi â haenau lliw tryloyw a phictogramau yn Photoshop
- Datblygu *repertoire* o sgiliau a dulliau arbed amser wrth greu ffeithluniau digidol

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn dysgu:

- Adnabod yr offer, y paneli a'r ffenestri mwyaf defnyddiol yn Photoshop gan ddefnyddio Taflen Gweithgaredd 4.1.
- Ail-greu ffeithlun digidol sy'n cyfleu'r un data anghydraddoldeb â'r sesiwn diwethaf.
- Cofnodi'r triciau a'r dulliau arbed amser y maent yn eu dysgu yn Photoshop.

Cwestiynau allweddol

- Beth ydyn ni'n ei wybod yn barod ynglŷn â sut y mae Photoshop yn gweithio?
- Pa offer Photoshop fydd y rhai mwyaf defnyddiol wrth greu/ail-greu ein dyluniad poster 1%?
- Pa ddulliau arbed amser a/neu driciau rydych chi wedi eu dysgu wrth arbrofi?

Adnoddau

- Cyfrifiaduron â mynediad i'r Rhyngrwyd ac *un* o'r canlynol:
  - Mynediad at www.easel.ly
  - Photoshop (mae'r cyfarwyddiadau enghreifftiol yn seiliedig ar fersiwn CS6 ond gellid eu haddasu ar gyfer fersiwn arall)
  - Rhaglen ddylunio arall y mae'r dysgwyr yn gyfarwydd â'i defnyddio
- Canllaw i Athrawon Sesiwn 4, gan gynnwys:
  - Copïau o Daflenni Gweithgaredd 4.1 i 4.3

[1] Oxfam GB (2016) 'An economy for the 1%', Oxfam Issue Briefing Ionawr 2016, Oxford: Oxfam GB, t. 1.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cyn y sesiwn

- Penderfynwch i ba gategori y mae eich dosbarth yn perthyn:

Os *nad* yw Photoshop ar gael:	**Os yw'r dysgwyr yn *newydd* i Photoshop:**	**Os yw'r dysgwyr yn ddefnyddwyr Photoshop *hyderus*:**
Mae nifer o wefannau sy'n cynnig tanysgrifiad di-dâl, er enghraifft www.easel.ly, a all arwain dylunwyr newydd trwy'r broses o wneud eu ffeithluniau eu hunain. Gwyliwch rai o'r dosbarthiadau tiwtorial ac ymarferwch ddefnyddio rhai o'r templedi cyn eu dangos i'r dysgwyr.	Ymarferwch ddilyn y cyfarwyddiadau isod cyn arwain eich dysgwyr trwy Daflenni Gweithgaredd 4.1 i 4.3. Lleolwch eich dysgwyr o amgylch y dosbarth gan ddibynnu ar eu profiad o TG – gwasgarwch yr arbenigwyr er mwyn iddynt allu helpu unrhyw un o'u cwmpas sydd ar goll!	Arweiniwch y dysgwyr wrth iddynt drosi'r dyluniadau poster 1% y maent wedi eu lluniadu yn graffigwaith digidol gan ddefnyddio Photoshop. Efallai y bydd yn dal yn syniad da i chi ddosbarthu Taflenni Gweithgaredd 4.1 a 4.3 er mwyn i'r dysgwyr allu cofnodi eu gwybodaeth flaenorol a'u cynnydd technegol wrth iddo ddatblygu.

Gweithgaredd 4.1
Dod i Adnabod Rhyngwyneb Photoshop

- Anogwch y dysgwyr i ganfod eu ffordd o gwmpas Photoshop trwy archwilio ac arbrofi â'r offer mewn dogfen newydd wag.
  - Gall y dysgwyr weithio'n unigol neu mewn parau i gofnodi eu canfyddiadau cychwynnol ar Daflen Waith 4.1.
  - Tynnwch sylw'r dysgwyr at rôl hanfodol haenau fel y mae'n cael ei disgrifio yng nghanol y daflen waith.

Gweithgaredd 4.2
Crëwch fodel ffeithlun 1%

- Rhannwch y ffeithlun ar Daflen Waith 4.2 â'r dysgwyr a thrafodwch:
  - Pa syniadau dylunio sydd wedi cael eu defnyddio?
    Pictogramau a lliwiau tryloyw mewn haenau
  - Pa mor effeithiol y mae'n cyfleu'r neges bod 1% o boblogaeth y byd yn rhannu hanner cyfoeth y byd?
  - Pa offer Photoshop rydych chi'n credu eu bod wedi cael eu defnyddio i'w gynhyrchu? Ym mha drefn?
- Yna bydd angen i chi fonitro a chefnogi'r dysgwyr wrth iddynt ddilyn y camau ar Daflen Waith 4.2 i ail-greu'r dyluniad enghreifftiol hwn. Anogwch hwy i gadw cofnod cyfredol o'r holl ddulliau arbed amser a'r atebion i broblemau y maent yn dod ar eu traws ar Daflen Waith 4.4. Mae rhai enghreifftiau o broblemau cyffredin wedi'u cofnodi'n barod.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws:

- Dangoswch y broses ddylunio o Daflen Waith 4.2 gan ddefnyddio'r taflunydd i weithio trwy'r camau gyda'ch gilydd.

Gwneud pethau'n anos:

- Neidiwch dros y sesiwn hon a mynd yn syth i Sesiwn 5.

Sylwer: Mae Photoshop yn rhaglen soffistigedig iawn ac mae'n hawdd i'r dysgwyr gyffroi a/neu gael eu llethu gan yr holl bosibiliadau creadigol. Nid yw'r awgrymiadau a'r triciau a gyflwynir yn y sesiwn hon yn cynnwys popeth, a dylid eu defnyddio yn hytrach fel llinell sylfaen i weithio ohoni.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Taflen Gweithgaredd 4.1 Dod i Adnabod Rhyngwyneb Photoshop

Defnyddiwch y geiriau yn y banc geiriau isod i labelu'r rhyngwyneb Adobe hwn. Bydd angen i chi gael Photoshop ar agor er mwyn i chi allu hofran dros yr offer a dod o hyd i'w henwau. Gallwch ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ymchwilio i unrhyw labeli bar a ffenestr sydd ar ôl.

Cyflym (dewis) a Ffon Hud	Ffenestr Haenau	Offeryn Symud	Offeryn Tocio	Ffenestr Lliwiau
Offeryn *Marquee* (dewis)	Offeryn Graddiant a Bwced Paent	Ffenestr Llywiwr	Offeryn Teipio	Bar Opsiynau
Lliw Blaen/Cefndir	Bar Dewislenni	Offeryn Petryal/Siâp	Offeryn Lasŵ (dewis)	Ffenestr Hanes



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen Gweithgaredd 4.1 Dod i Adnabod Rhyngwyneb Photoshop Copi'r Athro

Defnyddiwch y geiriau yn y banc geiriau isod i labelu'r rhyngwyneb Adobe hwn. Bydd angen i chi gael Photoshop ar agor er mwyn i chi allu hofran dros yr offer a dod o hyd i'w henwau. Os oes gennych unrhyw labeli bar a ffenestri ar ôl gallwch ymchwilio iddynt ar y Rhyngrwyd.

Cyflym (dewis) a Ffon Hud	Ffenestr Haenau	Offeryn Symud	Offeryn Tocio	Ffenestr Lliwiau
Offeryn *Marquee* (dewis)	Offeryn Graddiant a Bwced Paent	Ffenestr Llywiwr	Offeryn Teipio	Bar Opsiynau
Lliw Blaen/Cefndir	Bar Dewislenni	Offeryn Petryal/Siâp	Offeryn Lasŵ (dewis)	Ffenestr Hanes

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen Waith 4.2 Ffeithlun Model 1%

I greu cefndir glas:
Bar Dewislenni > *Select* > *All* > de-glicio > *Fill* > dewiswch y lliw glas

I greu torf o bictogramau:
Bar Offer > Offeryn *Custom Shape* > *Shape* > y cog *Settings* > *All* > sgroliwch i lawr a dewiswch bictogram o ddyn
Fill > dewiswch y lliw gwyn
Daliwch y fysell *Shift* i lawr wrth wneud siâp sy'n mesur 0.56 cm x 1.51 cm
Bar Offer > Offeryn *Marquee* petryal > dewiswch o amgylch y siâp > *Edit* > *Define pattern* > *Enter*
Bar Dewislenni > *Layer* > *New*
Bar Offer > Offeryn Stamp Patrwm (o dan *Clone Stamp*)
Bar Opsiynau > Dewiswch y patrwm pictogram o ddyn a gosodwch faint y brwsh i 500px
Brwsiwch y patrwm dros y cynfas i gyd (Dewisol: gadewch rywfaint o amrywiant mewn tôn)

I greu'r haen uchaf â 2 bictogram mawr:
Bar Dewislenni > *Layer* > *New Layer*
Bar Offer > Offeryn *Marquee* petryal > Gwnewch flwch ffin o amgylch traean isaf y cynfas
Bar Dewislenni > *Edit* > *Fill* > *Use* > *Colour* > dewiswch y lliw oren
Ailadrodd Ar gyfer 2 draean uchaf y cynfas â glas
Bar Offer > Offeryn *Custom Shape* > Gwnewch siâp i sefyll ar ochr chwith y cynfas
Bar Offer > Offeryn Symud > Daliwch *Alt* wrth lusgo copi o'r siâp i'r ochr dde
Ffenestr Haenau > Aroleuwch y 3 haen uchaf > de-glicio > *Merge Layers*
Bar Offer > Offeryn Ffon Hud > Dewiswch ben y pictogram chwith > Dileu > Ailadrodd ar gyfer y corff
Bar Offer > Offeryn testun > dewiswch y maint a'r teipwyneb y mae arnoch ei eisiau > Teipiwch y testun



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen Gweithgaredd 4.3 Fy nghofnod o driciau Photoshop

Problem	**Ateb a/neu ddull arbed amser**
1. Nid yw fy offeryn/ swyddogaeth yn gweithio	Opsiwn 1: Gwirio ym mha haen rydw i (wedi'i amlygu mewn glas yn y Ffenestr Haenau yn y gornel isaf ar y dde) Opsiwn 2: Gwneud yn siŵr bod y swyddogaeth flaenorol wedi'i chwblhau trwy bwyso Enter ar y bysellfwrdd a Ctrl+D
2. Mae fy nghyfrifiadur mor araf!	Opsiwn 1: *Image* > *Image Size* > Lleihau Cydraniad i 150 picsel/modfedd Opsiwn 2: De-gliciwch y llygoden a dewiswch nifer o haenau wedi'u haroleuo rydych wedi gorffen gweithio arnynt yn y Ffenestr Haenau i'w cyfuno
3. Mae fy nelwedd wedi ei phicseleiddio neu ei marcio	Dewiswch ddelwedd arall o *Google Images* > *Search tools* > *Size* > *Large* Mae hefyd yn syniad da i ddefnyddio'r ddewislen *Search tools* i hidlo ar gyfer *Usage Rights* > *Labelled for noncommercial reuse*
4. Fe wnaeth dimensiynau fy nelwedd newid pan wnes i newid y maint	*Edit* > *Step Backwards* *Free Transform* eto, y tro hwn gan ddal y fysell Shift i lawr wrth symud y ffiniau
5.	
6.	
7.	
8.	
9.	
10.	
11.	
12.	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.